



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

# **Adolygiad o Lifogydd Arfordirol Cymru – Prosiect 7, Rhan B Adroddiad Argymhelliad 38**

## Cynnwys

|  |    |
|--|----|
| <b>Adolygiad o Lifogydd Arfordirol Cymru – Prosiect 7, Rhan B</b> .....                | 1  |
| <b>Adroddiad Argymhelliad 38</b> .....   | 1  |
| <b>Cyd-destun</b> .....  | 3  |
| <b>Crynodeb o Swyddogaethau a Chyfrifoldebau</b> .....                                 | 5  |
| Mae Llywodraeth Cymru neu'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn gyfrifol am y canlynol:..... | 5  |
| Awdurdodau lleol arfordirol: .....   | 5  |
| Cyfoeth Naturiol Cymru: .....  | 6  |
| <b>Methodoleg ymgynghori</b> .....   | 7  |
| <b>Crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad</b> .....                                      | 8  |
| <b>Trafodaeth Argymhelliad 38</b> .....  | 10 |
| <b>Eglurder o ran arweinyddiaeth awdurdod rheoli risg</b> .....                        | 10 |
| <b>Trosglwyddo cyfrifoldebau rheoli asedau awdurdodau rheoli risg yn lleol</b> .....   | 11 |
| <b>Agwedd tuag at reoli asedau trydydd parti</b> .....                                 | 12 |
| <b>Cyflenwi Cynlluniau Rheoli Traethlin</b> .....                                      | 13 |
| <b>Y swyddogaeth gynllunio ac ymgynghorai statudol</b> .....                           | 13 |
| <b>Casgliadau</b> .....  | 15 |
| <b>Atodiad 1 – Cais am Ddata ar gyfer Argymhelliad</b> .....                           | 16 |

### Cyd-destun

Yn dilyn y llifogydd arfordirol ddiwedd mis Rhagfyr 2013 a dechrau mis Ionawr 2014, gofynnodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) adolygu'r digwyddiadau lifogydd arfordirol hyn. Roedd yr adolygiad hwn i'w gwblhau mewn dau gam ac mewn cydweithrediad ag awdurdodau rheoli risg yng Nghymru.<sup>1</sup> Nododd Cam 2 o'r adolygiad hwn 47 o argymhellion i wella gwydnwch Cymru yn wyneb llifogydd arfordirol.

Cafodd 30 o'r argymhellion eu gosod mewn deg prosiect i adlewyrchu themâu technegol cyffredin, gyda'r 17 a oedd yn weddill yn cael sylw'n unigol. Mae'r deg prosiect wedi eu rhestru isod:

- Prosiect 1 – Darogan Llifogydd a Chynllunio Arfordirol
- Prosiect 2 – Rhybudd rhag Llifogydd a Darogan Llifogydd
- Prosiect 3 – Gwytnwch Cymunedol
- Prosiect 4 – Ymateb Gweithredol
- Prosiect 5 – Amddiffynfeydd Arfordirol
- Prosiect 6 – Set Ddata ac Archwilio Amddiffynfeydd Arfordirol Cenedlaethol
- Prosiect 7 – Archwiliad Sgiliau a Galluedd, a Rolau a Chyfrifoldebau**
- Prosiect 8 – Adolygiad o Grwpiau Arfordirol
- Prosiect 9 – Addasu Arfordirol
- Prosiect 10 – Cydnerthedd Seilwaith

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r ystyriaethau a wnaed i fynd i'r afael â hanner o Brosiect 7, sef Argymhelliad 38, a ddiffinnir fel a ganlyn:

*'Egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau ymhlith awdurdodau rheoli risg ar y lefel leol a chenedlaethol fel y bo angen.'*

*'Datblygu negeseuon a dulliau cyfathrebu cyson a chyffredin i gyfleu swyddogaethau a chyfrifoldebau i gymunedau.'*

Yr argymhelliad hwn oedd un o'r chwe thema blaenoriaeth o adroddiad Cam 2, ac mae'n seiliedig ar y ffaith bod y rhwydwaith cenedlaethol o amddiffynfeydd arfordirol a'r gwasanaeth rheoli perygl llifogydd yn ei gyfanrwydd yng Nghymru yn gymhleth ac yn amlochrog. Mewn rhai lleoliadau ac agweddau ar waith, mae hyn wedi cyfrannu at ddiffyg eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau mewn awdurdodau rheoli risg. Mae'r diffyg eglurder hwn yn cyfrannu'n rhannol at ddryswch a rhwystredigaeth yn y gymuned. Bydd mwy o eglurder ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau hefyd yn sicrhau bod canlyniadau rheoli perygl llifogydd ac erydiad arfordirol yn cael eu cyflawni'n fwy effeithiol ac effeithlon. Mae angen i bob awdurdod rheoli risg gydweithio i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o'r peryglon a'r camau gweithredu priodol y dylid eu cymryd i'w rheoli.

<sup>1</sup>Diffinnir awdurdod rheoli risg yng Nghymru yn Adran 6 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 fel Asiantaeth yr Amgylchedd (Cyfoeth Naturiol Cymru ers mis Ebrill 2013), awdurdod llifogydd lleol arweiniol, cyngor rhanbarthol ar gyfer ardal lle nad oes awdurdod unedol, bwrdd draenio mewnol ar gyfer rhanbarth draenio mewnol sy'n rhannol neu'n gyfan gwbl o fewn Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru ers i bob Bwrdd Draenio Mewnol gael ei roi o dan ei reolaeth ym mis Ebrill 2015), a chwmni dŵr sy'n cyflawni swyddogaethau yng nghyswllt ardal yng Nghymru.

Mae'r gwaith ymarferol o gyflawni'r argymhelliad hwn wedi canolbwyntio ar ffynonellau risg llifogydd arfordirol, yn hytrach na phob ffynhonnell perygl llifogydd. Mae hefyd wedi canolbwyntio ar ystyriaethau yn ymwneud â gwaith rheoli asedau arferol, yn hytrach na'r rhai sy'n ymwneud ag ymateb i ddigwyddiadau yn weithredol, fel y trafodwyd ym Mhrosiect 4 Adolygiad Llifogydd Arfordirol Cymru.

### Crynodeb o Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

Gan dynnu ar ddeddfwriaeth berthnasol, strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, ail fersiwn o lawlyfr arfordirol Asiantaeth yr Amgylchedd, a phrofiad gweithredol, mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r rolau a chyfrifoldebau presennol o ran rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol fel a ganlyn:

#### Mae Llywodraeth Cymru neu'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn gyfrifol am y canlynol:

Cynhyrchu a chynnal y strategaeth genedlaethol ar gyfer sut mae awdurdodau rheoli risg yn rheoli risg gan lifogydd arfordirol a ffynonellau llifogydd eraill ac erydu arfordirol. Mae'r strategaeth i gael ei hadolygu am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2016.

Nodi'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi y mae pob awdurdod rheoli risg yng Nghymru'n gweithio oddi mewn iddo.

Cymeradwyo Cynlluniau Rheoli Traethlin 2 (SMP2) ac yn gyfrifol am reoli unrhyw anghydfodau ynglŷn â'r cynlluniau hyn.

Dyrannu cyllid i awdurdodau lleol arfordirol a Chyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer gweithgareddau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Pennu cyfeiriad strategol ac amserlenni awdurdodau rheoli risg i weithredu polisiau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol a Chynlluniau Rheoli Traethlin 2.

#### Awdurdodau lleol arfordirol:

Dyma'r sefydliadau arwain ar gyfer pob mater sy'n ymwneud ag erydu arfordirol oherwydd eu swyddogaeth dan Ddeddf Amddiffyn y Glannau 1949.

Mae ganddynt y pŵer caniatâol (h.y. gallant wneud hynny ar eu disgrisiwn) i ymgymryd â gweithgareddau rheoli risg erydiad arfordirol a gwaith ar risg llifogydd arfordirol gyda chaniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru.

Maent yn arwain ac yn cefnogi Grwpiau Arfordirol, gan gyd-ethol unrhyw sefydliad perthnasol gan gynnwys perchnogion a gweithredwyr seilwaith.

Cynhyrchu Cynlluniau Rheoli Traethlin 2 ble y cytunir ar hynny gan y Grŵp Arfordirol.

Mae ganddynt bwerau dan Ddeddf Amddiffyn y Glannau 1949 i reoli gweithgareddau trydydd parti ar yr arfordir, fel adeiladu amddiffynfeydd preifat neu dynnu deunyddiau oddi ar draethau.

Mae ganddynt bwerau o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 i ddynodi asedau neu nodweddion – naturiol neu artiffisial – sy'n eiddo i drydydd parti sy'n darparu budd rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol i atal y nodweddion hynny rhag cael eu newid, eu tynnu neu eu hamnewid heb ganiatâd.

Mae ganddynt bwerau i gynnal gwaith amddiffyn rhag llifogydd dan Ddeddf Draenio Tir 1991 ar gysiau dŵr nad ydynt wedi eu dynodi'n 'brif afon' ac nad ydynt o fewn ardal draenio mewnol.

### Cyfoeth Naturiol Cymru:

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r awdurdod arwain ar gyfer pob mater sy'n ymwneud â llifogydd o'r môr oherwydd ei swyddogaeth dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995.

Mae ganddo'r pŵer caniataol i gynnal gweithgareddau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Mae ganddo'r pŵer caniataol i gynnal gweithgareddau rheoli perygl llifogydd prif afon i'r pwynt pellaf i lawr yr afon lle y caiff cwrs dŵr ei ddiffinio fel prif afon.

Mae ganddo swyddogaeth oruchwylio gyffredinol ('y swyddogaeth oruchwylio strategol genedlaethol) dros faterion sy'n ymwneud â rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, gan gynnwys rhoi cyngor anffurfiol i awdurdodau eraill ar y materion hyn yn ogystal â bod yn ymgynghori statudol ar faterion fel cynllunio.

Mae'n darparu cyngor technegol i grwpiau arfordirol ar gynhyrchu a gweithredu Cynlluniau Rheoli Traethlin 2 ac yn darparu sylwadau i Lywodraeth Cymru i lywio swyddogaeth y Gweinidog er mwyn sicrhau ansawdd a chymeradwyo'r cynlluniau hynny.

Mae ganddo'r pwerau dan Ddeddf Amddiffyn y Glannau 1949 i reoli gweithgareddau trydydd parti ar yr arfordir, fel adeiladu amddiffynfeydd preifat neu dynnu deunyddiau oddi ar draethau.

Mae ganddo bwerau i ddynodi asedau neu nodweddion – naturiol neu artiffisial – sy'n eiddo i drydydd parti sy'n darparu budd rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol i atal y nodweddion hynny rhag cael eu newid, eu tynnu neu eu hamnewid heb ganiatâd.

Mae ganddo bwerau i gynnal gwaith perygl llifogydd a draenio ar gyfer pob cwrs dŵr o fewn ardal draenio mewnol.

Mae ganddo ddyletswydd dan Adran 18 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr i hysbysu'r Gweinidog bob dwy flynedd am weithrediad y strategaeth rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol genedlaethol a gwaith yr holl awdurdodau rheoli risg gan gynnwys ar yr arfordir. Bydd yr ail adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn haf 2016.

### Methodoleg ymgynghori

Cafodd holiadur ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau ei ddatblygu ar ôl gweithdy gydag awdurdodau rheoli risg ym mis Mawrth 2015. Yna, ymgynghorwyd â'r holl awdurdodau lleol arfordirol drwy holiaduron ar 10 Gorffennaf, gyda dyddiad targed o 24 Gorffennaf i ymateb. Roedd pob un o'r 15 o awdurdodau lleol wedi dychwelyd eu hatebion erbyn 9 Medi. Gofynnodd yr holiadur y deg cwestiwn canlynol:

Cwestiwn 1: Pa sefydliad ddylai arwain y gwaith o *benderfynu a oes angen amddiffynfeydd diogelu arfordirol newydd* yn a) cymunedau gwledig a b) cymunedau trefol?

Cwestiwn 2: Pa sefydliad ddylai arwain y gwaith o *benderfynu a oes angen amddiffynfeydd llifogydd arfordirol newydd* yn a) cymunedau gwledig a b) cymunedau trefol?

Cwestiwn 3: Pa sefydliad ddylai arwain y gwaith o *ddarparu amddiffynfeydd diogelu arfordirol newydd* yn a) cymunedau gwledig a b) cymunedau trefol?

Cwestiwn 4: Pa sefydliad ddylai arwain y gwaith o *ddarparu amddiffynfeydd llifogydd arfordirol newydd* yn a) cymunedau gwledig a b) cymunedau trefol?

Cwestiwn 5: Pa sefydliad ddylai arwain y gwaith o *reoli seilwaith amddiffynfeydd arfordirol sydd eisoes yn bodoli* yn a) cymunedau gwledig a b) cymunedau trefol?

Cwestiwn 6: Pa sefydliad ddylai arwain y gwaith o *ddarganfod asedau trydydd parti sy'n methu*?

Cwestiwn 7: Pa sefydliad ddylai arwain o ran *cyfarwyddo'r gwaith o ddiweddarau asedau trydydd parti*on?

Cwestiwn 8: Os yw asedau amddiffyn arfordirol cyfagos yn eiddo i wahanol gyrrff cyhoeddus, a ddylid ystyried *trosglwyddiad perchnogaeth* i un ohonynt er mwyn sicrhau gwaith arolygu a chynnal mwy effeithlon? DYLLID / NA DDYLLID.

Cwestiwn 9: A ddylai *integreiddiad gyda sectorau perthnasol eraill y tu allan i faes rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol* (e.e. cynllunio a thrafnidiaeth) gael ei yrru ar lefel genedlaethol neu'r lefel leol, a gan bwy?

Cwestiwn 10: Hyd yn hyn, daethpwyd o hyd i astudiaethau achos o gynghorau Sir y Fflint (asedau trydydd parti), Ynys Môn (Biwmares) a Gwynedd (Borth-y-gest) er mwyn llywio'r gwaith ar Argymhelliad 38. A fydddech cystal â nodi astudiaethau achos eraill.

Yn ogystal â'r ymdrechion ymgynghori uchod, casglwyd adborth *ad hoc* o gyfarfodydd arferol grwpiau rheoli perygl llifogydd rhanbarthol a grwpiau arfordirol yng Nghymru er mwyn llywio'r adroddiad hwn.

### Crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad

Mae ymatebion holiadur haf 2015 wedi eu coladu yn Atodiad 1.

I grynhoi, y farn gyffredinol oedd y byddai'n ddefnyddiol egluro'r rolau a chyfrifoldebau ar yr arfordir, ond nad oedd maint y materion a'r cwestiynau presennol ymhlith awdurdodau rheoli risg yn awgrymu bod angen unrhyw newidiadau ffurfiol i'r trefniadau presennol. Nid oedd ymgynghoreion yn gweld unrhyw ffactor a fyddai'n cyfiawnhau mabwysiadu ymagwedd wahanol at rolau rhwng cymunedau arfordirol gwledig a threfol. Dangosodd ymgynghoreion ddealltwriaeth dda o'r ddeddfwriaeth bresennol ac o strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Lle'r oedd arferion rheoli sefydledig yn gweithio'n dda drwy ba bynnag awdurdod rheoli risg a ystyrir yn y sefyllfa orau i wneud hynny, cydnabu'r ymatebion nad oes angen eu newid, ac o ganlyniad nid oes angen ymagwedd ragnodol genedlaethol newydd.

At ei gilydd, y tri phrif bryder a nodwyd yn ymatebion yr ymgynghoriad oedd:  
*Cyfyngiadau o ran adnoddau yn effeithio ar y gallu i gyflawni swyddogaethau a chyfrifoldebau yn effeithiol*  
*Yr angen i liniaru risg sefydliadol wrth gynnal gweithrediadau arferol ar yr arfordir*  
*Sut i sicrhau'r gwaith cydweithredol gorau posibl ar lefel leol.*

Ceir rhagor am bob un o'r pryderon hyn isod drwy gyfeirio at y sylwadau a gadwyd yn yr ymatebion i'r holiadur:

*Cyfyngiadau o ran adnoddau yn effeithio ar y gallu i gyflawni swyddogaethau a chyfrifoldebau yn effeithiol*

Roedd yr ymatebion yn dangos tuedd gyffredinol lle mae awdurdodau lleol â lefel gymharol dda o adnoddau am barhau â'u rôl arweiniol mewn gwaith rheoli perygl erydu arfordirol, ond mae awdurdodau lleol â llai o adnoddau am i Gyfoeth Naturiol Cymru chwarae mwy o ran ac o bosibl i arwain.

Roedd canfyddiadau am gyfyngiadau cyllid wedi eu cysylltu'n agos iawn â'u barn am addasiadau lleol neu ar rolau a chyfrifoldebau rhwng awdurdodau rheoli risg; nododd llawer o ymatebwyr na fyddent yn ymgymryd â rolau pobl eraill gan nad oedd modd iddynt gyllido'r gwaith eu hunain, yn hytrach na rhagweld y byddai cyllid yn dod ochr yn ochr â rôl y byddai awdurdod rheoli risg arall yn gofyn iddynt ei chyflawni.

Cyfeiriodd dau ymateb i werth yr ail fersiwn o'r Cynlluniau Rheoli Traethlin (SMP2) o ran ffocysu eu hadnoddau cyfyngedig er mwyn cyflawni rolau arwain fel y'u pennir fesul eitem yng nghynllun gweithredu SMP2. Mae'r ymatebion hyn yn dangos yr angen i ddatblygu barn genedlaethol gyffredin ynglŷn â chyflenwi'r SMP2au ac ystyriaeth o ba mor ysgogol yw polisïau SMP2 o'u cymharu â gweithgareddau a blaenoriaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol eraill.



- *Yr angen i liniaru risg sefydliadol wrth gynnal gweithrediadau arferol ar yr arfordir*

Nododd ymatebion na fyddai awdurdodau rheoli risg yn ymgymryd â gwaith cynnal a chadw awdurdod arall oherwydd rhagdybir y byddai'n rhaid derbyn perchnogaeth ar yr ased hwnnw'n awtomatig hefyd. Fodd bynnag, nid yw hynny'n wir – gall parti arall ar wahân i'r perchennog wneud gwaith cynnal a chadw, os yw'r perchennog yn cytuno ar hynny.

O ran asedau trydydd parti, dangosodd sawl ymateb fod cyfrifoldeb am waith cynnal a chadw, cofrestru diffygion, a'r angen i nodi a chwblhau diweddariad i ased yn aros yn gyfan gwbl gyda pherchennog yr ased/tir, yn hytrach na bod yn rhan o rôl pob awdurdod rheoli risg.

- *Sut i sicrhau'r gwaith cydweithredol gorau posibl ar lefel leol*

Mae gwaith cydweithredol rhwng partneriaid yn thema graidd strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, a hefyd deddfwriaeth newydd megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Gellid sicrhau cydweithio effeithiol pe bai Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwain ac yn goruchwyllo trwy ei rôl genedlaethol, tra gallai awdurdodau lleol arfordirol wneud gwaith dilysu lleol ac o bosibl arwain os oes angen mireinio ac ymgeisio ar lefel leol.

Gwnaeth trafodaethau yn y gweithdy gydnabod gwerth grwpiau arfordirol ar gyfer rhannu a chynnig cyngor technegol i bartneriaid proffesiynol i gefnogi eu gweithgareddau rheoli perygl llifogydd ac erydu mewn modd cydweithredol ar lefel leol.

Mae rhai memoranda cytundebau neu ddogfennau tebyg eisoes yn bodoli i hwyluso cydweithio ar lefel leol lle mae un awdurdod rheoli risg yn gwneud gwaith un arall. Fodd bynnag, gwnaeth trafodaethau yn y gweithdy dynnu sylw at amharodrydd ynglŷn â'r ffaith bod yn rhaid defnyddio llawer o adnoddau ar gyfer dogfennaeth o'r fath, ac fel arfer mae'n rhaid cael cymeradwyaeth ar lefel y cabinet neu'r bwrdd.

Roedd ymatebion yn cydnabod y dylai darparwyr seilwaith ffyrdd a rheilffyrdd gael eu cynnwys mewn trafodaethau lle mae'r gost a budd yn ymddangos yn aneconomaidd yn seiliedig ar amddiffyn adeiladau rhag risg yn unig. Yn wir, ni ddylai gwaith cydweithredol ar lefel leol gael ei gyfyngu i berchnogion a rheolwyr seilwaith, ond dylai gynnwys gweithredwyr gwasanaethau hefyd.

### Trafodaeth Argymhelliad 38

Nododd y gwaith ymgynghorol i lywio'r adroddiad hwn fod y newid i'r dirwedd gyfundrefnol ac ariannol yn rheswm allweddol dros sicrhau y gall sefydliadau fabwysiadu'r dull mwyaf hyblyg ar gyfer cyflawni swyddogaethau a dyletswyddau, boed hynny'n unigol neu mewn partneriaeth ag eraill.

Felly mae'r adroddiad hwn yn cynnig y dylid parhau i ddilyn y trefniadau cenedlaethol presennol gan ganiatáu ar gyfer addasiadau lleol i newidiadau a gânt eu gyrru'n genedlaethol a/neu amgylchiadau lleol, yn hytrach na gweithredu dull rhagnodol caeth sydd mewn perygl o ddod yn fwy perthnasol dros amser. Mae angen cyfathrebu'r safbwynt hwn yn effeithiol er mwyn lleihau anghysondebau canfyddedig posibl; mae gweddill yr adran drafodaeth hon yn ceisio helpu gwaith cyfathrebu.

Mae'r adran drafodaeth isod yn ystyried yr agweddau canlynol ar weithgarwch awdurdodau rheoli risg ar yr arfordir:

- Eglurder arweinyddiaeth;
- Trosglwyddo chyfrifoldebau rheoli asedau awdurdodau rheoli risg yn lleol;
- Agwedd tuag at reoli asedau trydydd parti;
- Cyflenwi Cynlluniau Rheoli Traethlin 2; a'r
- Swyddogaeth gynllunio ac ymgynghorai statudol.

### Eglurder o ran arweinyddiaeth awdurdod rheoli risg

Mae awdurdodau lleol yn arwain ledled Cymru ar reoli risg erydu arfordirol oherwydd eu swyddogaeth dan Ddeddf Amddiffyn y Glannau 1949. Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol gynnal gwaith rheoli perygl erydu arfordirol yn ardal awdurdod lleol arall os yw'n unol â strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydiad arfordirol ac os mai diben y gwaith mewn ardal arall yw rheoli perygl erydu arfordirol yn ei ardal ei hun. Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr hefyd yn rhoi pŵer i Gyfoeth Naturiol Cymru gynnal gwaith erydu arfordirol yn ardal arfordirol unrhyw awdurdod lleol os yw'n credu bod y gwaith yn ddymunol, gan ystyried strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Gall Cyfoeth Naturiol Cymru ymgymryd â gwaith o'r fath ar gais awdurdod lleol arfordirol neu'r Gweinidog neu yn rhagweithiol.

Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n arwain ledled Cymru ar reoli perygl llifogydd arfordirol oherwydd ei swyddogaeth dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Gall awdurdodau lleol arfordirol hefyd gynnal gwaith i leihau perygl llifogydd arfordirol os ydynt yn y sefyllfa orau i wneud hynny. Mae hyn fel arfer mewn perthynas ag adeiladu a chynnal a chadw strwythurau amddiffyn rhag llifogydd arfordirol mewn lleoliadau lle maent yn darparu buddiannau cymdeithasol ac economaidd ehangach – er enghraifft, promenâd gyda phriffordd leol mewn tref arfordirol. Mewn achosion o'r fath, dylid trafod y trefniadau gweithio lleol a chytuno arnynt mewn partneriaeth rhwng yr awdurdodau lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru. Ar wahân i system rheoli asedau, caiff mathau eraill o weithgareddau rheoli perygl llifogydd arfordirol fel rhagolygu

llyfogydd, rhybuddion llyfogydd a chynllunio strategol statudol (e.e. cynlluniau rheoli perygl llyfogydd dan Reoliadau Perygl Llyfogydd 2009) eu harwain gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Dan Ddeddf Amddiffyn y Glannau 1949, mae pwerau caniatool awdurdod lleol arfordirol ar gael i'r awdurdod trwy gydol ei ardal heb gyfyngiadau, ar yr amod ei fod yn waith amddiffyn arfordirol. Ond yn ymarferol, mae unrhyw waith bron bob amser yn mynd i ffwrdd oddi wrth 'ffin Atodlen IV' fel y'i diffinnir yn Neddf Amddiffyn y Glannau 1949, sef y ffin i fyny'r afon mewn aberoedd ac afonydd lle nad yw dyfroedd yn cael eu dosbarthu fel 'môr' neu 'lan môr' mwyach. Y tu hwnt i'r ffin honno o fewn aber, mae deddfwriaeth yn rhoi'r swyddogaeth arweiniol i Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer rheoli perygl llyfogydd gan y môr a phrif afonydd a ddylanwadir gan y llanw. Yng Nghymru fel arfer, mae cyrsiau dŵr prif afonydd yn cael eu dynodi fel hyn i lawr at geg yr aber, h.y. mae'r mwyafrif o aberoedd yn cael eu dosbarthu fel prif afon.

**Argymhelliad 1: Dylid cynhyrchu map trosolwg arfordirol cenedlaethol i Gymru y bydd yr holl awdurdodau rheoli risg yn gallu ei ddefnyddio i wneud gwaith rheoli, ac er mwyn hysbysu'r cyhoedd a sefydliadau eraill.** Dylai'r map ddangos yr arweinwyr gweithredol arfordirol presennol (h.y. pa awdurdod rheoli risg neu drydydd parti sy'n gyfrifol am reoli pob rhan o'r arfordir ar hyn o bryd) a chasglu amrywiadau trwy gytundebau lleol os ydynt yn bodoli. Gallai gwaith a gynhaliwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru i adnewyddu Arolwg Amddiffyniad Llanw Gogledd Cymru, ac y cyfeirir ato ym Mhrosiect 6 yr Adolygiad Arfordirol, gynnig manylion perchnogaeth tir ac asedau i ddechrau'r gwaith o ddatblygu'r haen map system gwybodaeth ddaearyddol hon. Gellid gwneud yr haen derfynol yn weladwy ar syllwr My Map mewnol Cyfoeth Naturiol Cymru, gellid ei rhannu gydag awdurdodau rheoli risg partner trwy gyfrwng y Geo-borth Lle (<http://lle.wales.gov.uk/home>), a gellid cyhoeddi fersiwn gryno, na ellir ei golygu, ochr yn ochr â mapiau polisi Rheoli Perygl Erydiad Arfordirol Cenedlaethol a Chynlluniau Rheoli Traethlin 2 ar syllwr map rhyngweithiol allanol Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd trafodaethau yn y gweithdy ym mis Mawrth 2015 yn cefnogi'r argymhelliad hwn, yn amodol ar sicrhau cyllid ac adnoddau i gyflenwi a chynnal y syllwr map, gan wneud y defnydd gorau posibl o blatfformau syllu ar fapiau presennol a sicrhau hawliau golygu diogel.

### Trosglwyddo chyfrifoldebau rheoli asedau awdurdodau rheoli risg yn lleol

Mae Deddf Rheoli Llyfogydd a Dŵr yn caniatáu i awdurdod rheoli risg arfordirol, gyda'r caniatâd priodol ble'n berthnasol, drefnu i unigolyn arfer swyddogaeth rheoli risg llyfogydd a/neu erydu arfordirol ar ei ran. Gall yr unigolyn hwnnw fod yn awdurdod rheoli risg arall neu'n sefydliad neu gontractwr arall.

Nid oes dim yn gyfreithiol i rwystro'r awdurdod rheoli risg sy'n comisiynu rhag darparu'r cyllid neu adnoddau eraill angenrheidiol, fel data, i'r awdurdod rheoli risg neu'r unigolyn y mae'n trefnu iddo arfer swyddogaeth rheoli risg arfordirol ar ei ran. Gall trefniadau o'r fath fod ar ffurf Memorandwm Cytundeb neu ddull gweithredu sefydledig ariannol/cyfreithiol arall o'r fath.

Gall awdurdod rheoli risg arfordirol drosglwyddo perchnogaeth a gofynion cynnal a chadw parhaus ased arfordirol i awdurdod rheoli risg arall neu i unigolyn. Nid oes dim i rwystro darparu cyllid neu adnoddau eraill fel rhan o'r cytundeb hwnnw.

Gall awdurdod rheoli risg arfordirol drefnu i awdurdod rheoli risg arall neu unigolyn gynnal a chadw ased arfordirol heb orfod trosglwyddo ei berchnogaeth. Eto, nid oes unrhyw beth i rwystro darparu cyllid neu adnoddau eraill fel rhan o'r cytundeb hwnnw.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn awyddus i hyrwyddo gwaith partner ar draws sefydliadau gyda chytundebau ffurfiol neu anffurfiol rhwng awdurdodau rheoli risg. Mae rhywfaint o waith yn digwydd eisoes, er enghraifft rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ynys Môn, ac mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n ymchwilio'r posibilrwydd o ehangu hyn ymhellach yn seiliedig ar ddwy enghraifft sefydledig yn Lloegr. Nid yw cytundebau cydweithredu sector cyhoeddus yn bodoli yng Nghymru ar hyn o bryd, ond ceir Cytundeb Cymorth Cydfuddiannol yng Nghymru ar hyn o bryd o ran gweithgareddau cydnerthedd a allai lywio datblygiad unrhyw gytundebau partner yn y dyfodol.

### Agwedd tuag at reoli asedau trydydd parti

Ar gyfer unrhyw leoliad ar arfordir Cymru, gall naill ai Cyfoeth Naturiol Cymru neu'r awdurdod lleol arfordirol perthnasol nodi presenoldeb ased arfordirol sy'n eiddo i drydydd parti. Byddai'n arfer da i bwy bynnag sy'n nodi'r ased hwnnw hysbysu'r llall amdano a'i drafod. Bydd hyn yn galluogi'r awdurdod lleol i'w ychwanegu at ei gofrestr asedau lleol os yw'n dymuno gwneud hynny a Chyfoeth Naturiol Cymru i'w ychwanegu at ei oruchwyliaeth strategol o asedau arfordirol trydydd parti ledled Cymru.

Gall naill ai'r awdurdod lleol neu Gyfoeth Naturiol Cymru gymryd camau i arolygu cyflwr ased presennol sy'n eiddo i drydydd parti neu sydd wedi cael ei ddarganfod o'r newydd, gwneud cais i'r perchennog gymryd camau unioni, ac, os oes angen, cymryd camau gorfodi os na chydymffurfir â'r cais hwnnw.

**Argymhelliad 2: Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ddatblygu a chynnal cofrestr genedlaethol o asedau llifogydd ac erydu arfordirol sy'n eiddo i drydydd parti.** Bydd llawer o'r gofrestr yn cynnwys data cyfredol a ddelir gan awdurdodau lleol arfordirol a Chyfoeth Naturiol Cymru. Dylai ddarparu digon o wybodaeth i ddangos cyflwr pob ased y mae ei berchnogion wedi derbyn hysbysiadau gwella yn ei gylch a'r canlyniadau (camau gweithredu neu ddiffyg cydymffurfio). Bydd hyn yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i roi darlun cenedlaethol i Lywodraeth Cymru o faint y risg a berir gan asedau trydydd parti ac os oes angen helpu i lywio deddfwriaeth a pholisi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol er mwyn i'r risg hwnnw gael sylw yn effeithiol ac yn effeithlon. Dylai gweithrediad yr argymhelliad hwn yn y dyfodol ystyried cynnwys Prosiect 5 (amddiffynfeydd dros dro ac eilaidd) a Phrosiect 6 (creu set ddata genedlaethol ar gyfer asedau a chysondeb mewn gweithdrefnau arolygu asedau) Adolygiad Llifogydd Arfordirol Cymru.

### Cyflenwi Cynlluniau Rheoli Traethlin

Dylai awdurdodau lleol arfordirol barhau i arwain y gwaith o weithredu Cynlluniau Rheoli Traethlin 2 ac unrhyw adolygiad ohonynt yn y dyfodol am y rheswm eu bod wedi ariannu'r Cynlluniau Rheoli Traethlin 2 presennol – ac yn berchen arnynt – ac yn gweithredu fel yr awdurdod arweiniol cymdeithasol a lles ar yr arfordir – ac yn aml yr awdurdod arweiniol cynllunio. Caiff eu dull gweithredu a'u hamserlen ar gyfer gweithredu addasiad lleol ar yr arfordir eu gosod gan yr awdurdodau lleol eu hunain, gan ystyried polisi cyffredinol Llywodraeth Cymru, y strategaeth rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol bresennol, a'r rhagolygon newid hinsawdd diweddaraf. Gellir gweld cysylltiadau yma ag Argymhelliad 41 yr Adolygiad o Lifogydd Arfordirol Cymru, ynglŷn â'r gwaith o ddatblygu pecyn cymorth addasu lleol yn y dyfodol i gynnig cymorth ymarferol yn y gwaith o gyflawni newid i'r arfordir.

Dylai Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol newydd o bosibl ddarparu cyfarwyddyd strategol ar y dull a'r amserlen ar gyfer gweithredu Cynlluniau Rheoli Traethlin 2 lle y gwneir cais am hynny gan awdurdod lleol. Dylai'r cyfarwyddyd strategol hwnnw fod yn gydlynol ac yn gydgyssylltiedig ledled holl adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru (e.e. llifogydd, morol, cynllunio, adfywio, bioamrywiaeth, trafndiaeth ac ati) er mwyn galluogi gweithredu effeithiol yn lleol. Gellir gweld cysylltiadau yma â Phrosiect 8/Argymhelliad 39 yr Adolygiad o Lifogydd Arfordirol Cymru, ynglŷn ag adolygiad Llywodraeth Cymru o rôl gyfredol grwpiau arfordirol a'r Fforwm Grwpiau Arfordirol yng Nghymru, a'u rôl yn y dyfodol.

Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid eraill gefnogi a chyflawni eu helfennau o gynllun gweithredu Cynllun Rheoli Traethlin 2, gan ddilyn arweiniad yr awdurdod lleol sy'n arwain o ran dull ac amserlen, a dylid cytuno ar y rhain. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyfarwyddyd strategol ynglŷn â sut mae am i awdurdodau lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru fonitro a hysbysu am gynnydd o ran Cynlluniau Rheoli Traethlin 2. Gallai'r adroddiadau lefel uchel, a gynhyrchir ddwywaith y flwyddyn gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn unol ag Adran 18 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr i hysbysu am y cynnydd a wneir gan awdurdodau rheoli risg wrth gyflawni'r Ddeddf, gyfeirio at gynnydd cyffredinol o ran Cynlluniau Rheoli Traethlin 2, ond mae angen creu dulliau o greu adroddiadau mwy manwl ar gynnydd y cynlluniau hyn.

### Y swyddogaeth gynllunio ac ymgynghorai statudol

Dylai awdurdodau lleol barhau i ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn ag unrhyw gynllun amddiffyn arfordir arfaethedig, a bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei dro yn parhau i ddarparu cyngor i awdurdodau lleol fel rhan o'i swyddogaeth oruchwylio strategol dros Gymru gyfan, er enghraifft i sicrhau nad yw'r mesurau a gynigir ar gyfer un lleoliad yn achosi cynnydd yn y perygl llifogydd neu erydu arfordirol mewn man arall mewn cell waddod arfordirol neu ar ben arfordirol priif afon.

Dylai awdurdodau lleol barhau i sicrhau bod eu swyddogaeth o arwain cynllunio lleol a swyddogaeth Awdurdodau Parciau Cenedlaethol fel sy'n briodol yn adlewyrchu perygl llifogydd ac erydu cyfredol ac yn y dyfodol yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol ac mewn penderfyniadau ar gynllunio datblygiadau unigol. Ar gyfer unrhyw leoliad ar arfordir Cymru, gall naill ai Cyfoeth Naturiol Cymru neu'r awdurdod lleol arfordirol perthnasol nodi'r mesurau

newydd y mae eu hangen i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn ddigonol. Gall hynny olygu, er enghraifft, gwella rhagolygon llifogydd, ardal rhybuddio llifogydd newydd/ehangach, creu cynllun llifogydd cymunedol, neu ased rheoli risg arfordirol newydd neu well. Dylai pwy bynnag sy'n canfod yr angen hwnnw hysbysu'r awdurdod rheoli risg arall amdano a'i drafod gydag ef. Bydd cyflawni'r dull hwn yn effeithiol yn caniatáu: a) i'r awdurdod lleol asesu pa mor briodol ydyw o ran yr ardal a'r gymuned lleol ac o ran y dull gweithredu a nodir yn y Cynllun Rheoli Traethlin 2 perthnasol; a b) bydd yn caniatáu i Gyfoeth Naturiol Cymru ddiweddarau ei Gofrestr o Gymunedau sydd mewn Perygl, sy'n helpu i asesu perygl llifogydd arfordirol ar sail blaenoriaethau cenedlaethol, fel sy'n ofynnol gan bolisi Llywodraeth Cymru. Yna dylai'r awdurdod lleol arfordirol a Chyfoeth Naturiol Cymru gytuno ar ba un sydd orau i arwain ar gyflawni'r angen hwnnw'n ymarferol.

Rhaid i awdurdod lleol (neu drydydd parti) gael caniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru i adeiladu unrhyw ased llifogydd neu erydu arfordirol newydd. Gwneir hyn fel arfer ar ôl sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru ac ar ôl derbyn cydsyniadau a chaniatadau rheoleiddiol eraill fel caniatâd cynllunio neu drwydded forol.

### Casgliadau

Mae'r gwaith ymgynghorol ynglŷn ag Argymhelliad 38 i lywio'r adroddiad hwn wedi darganfod bod y ddeddfwriaeth gyfredol at ei gilydd yn cael ei deall yn dda gan awdurdodau rheoli risg yng Nghymru, ac er ei bod o bosibl yn drwsgl ei gweithredu ar adegau, ar y cyfan mae lefel dda o gydweithredu a chydweithio rhwng awdurdodau rheoli risg er mwyn cyflawni gwaith rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn effeithiol. Mae'r adroddiad hwn wedi dod i'r casgliad nad oes angen newid deddfwriaethol cyfanwerthol – fodd bynnag, mae rhai materion bach y gellir eu gwneud yn gliriach yn y dyfodol, er enghraifft:

- 1) Galluogi awdurdodau lleol i gael eu heithrio o'r broses trwyddedu forol pan fyddant yn gwneud gwaith cynnal a chadw draeniau ar draeth, gan fod Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes yn derbyn eithriad ar gyfer gwaith o'r fath.
- 2) P'un a ddylai cyrff isadeiledd cenedlaethol megis yr asiantaethau cefnffyrdd a Network Rail hefyd gael eu hystyried yn awdurdodau rheoli risg yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu adnewyddu ei strategaeth rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol genedlaethol yn ystod 2016-2017 – gall hyn roi cyfle i fynd i'r afael â'r problemau.

Mae'r myfyrion a'r trafod yn yr adroddiad hwn wedi cynhyrchu'r argymhellion canlynol i'w hystyried yn y dyfodol:

**Argymhelliad 1: Dylid cynhyrchu map trosolwg arfordirol cenedlaethol i Gymru y bydd yr holl awdurdodau rheoli risg yn gallu ei ddefnyddio i wneud gwaith rheoli, ac er mwyn hysbysu'r cyhoedd a sefydliadau eraill.**

**Argymhelliad 2: Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ddatblygu a chynnal cofrestr genedlaethol o asedau llifogydd ac erydu arfordirol sy'n eiddo i drydydd parti.**

Bydd canlyniadau Prosiectau 3 (Cydnerthedd Cymunedol), 5 (Amddiffynfeydd Arfordirol), 6 (Set Ddata ac Archwilio Amddiffynfeydd Arfordirol Cenedlaethol), 7 (Archwiliad o Sgiliau a Gallu) yr Adolygiad o Llifogydd Arfordirol Cymru, ynghyd ag Argymhelliad 39 (Adolygiad o Grwpiau Arfordirol), yn ddylanwadol cyn buddsoddi adnoddau pellach i gyflawni'r ddau argymhelliad uchod.

### Atodiad 1 – Cais am Ddata ar gyfer Argymhelliad

Adolygiad Llifogydd Arfordirol Cymru: Cynllun Cyflawni – Rhif Cais 7 am Ddata

Mae'r cais hwn yn ymwneud ag **Argymhelliad 38**, a ddiffinnir fel a ganlyn:

**Egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau ymhlith awdurdodau rheoli risg ar y lefel leol a chenedlaethol fel y bo angen.**

**Datblygu negeseuon a dulliau cyfathrebu cyson a chyffredin i gyfleu swyddogaethau a chyfrifoldebau i gymunedau.**

1) Pa sefydliad ddylai arwain y gwaith o benderfynu a oes angen amddiffynfeydd diogelu arfordirol newydd yn a) cymunedau gwledig a b) cymunedau trefol? Esboniwch pam.

Dosbarthwyd yr 15 ymateb fel a ganlyn:

saith yn dweud Cyfoeth Naturiol Cymru

un yn dweud y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru oruchwylio'n genedlaethol a chanfod ardaloedd sydd angen amddiffynfeydd newydd arnynt ac, os oes angen gwelliannau i gefnogi cynlluniau wedyn, gall yr awdurdod lleol gymryd yr awenau fel arweinydd

dau yn dweud yr awdurdod lleol

dau yn dweud perchennog y tir neu'r ased penodol

un yn dweud yr holl awdurdodau rheoli risg ar y cyd

2) Pa sefydliad ddylai arwain y gwaith o benderfynu a oes angen amddiffynfeydd llifogydd arfordirol newydd mewn a) cymunedau gwledig a b) cymunedau trefol? Esboniwch pam.

Dosbarthwyd yr 15 ymateb fel a ganlyn:

saith yn dweud yr awdurdod lleol

un yn dweud Cyfoeth Naturiol Cymru

un yn dweud Cyfoeth Naturiol Cymru mewn ardaloedd gwledig a naill ai Cyfoeth Naturiol Cymru neu'r awdurdod lleol mewn ardaloedd trefol

un yn dweud y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru oruchwylio'n genedlaethol a chanfod ardaloedd sydd angen amddiffynfeydd newydd arnynt (e.e. y map perygl erydu arfordirol cenedlaethol) ac wedi trosglwyddo i'r awdurdod lleol o bosibl ar gyfer cyfraniad lleol a chyfiawnhad cynllun

dau yn dweud perchennog y tir neu'r ased penodol

3) Pa sefydliad ddylai arwain y gwaith o ddarparu amddiffynfeydd diogelu arfordirol newydd mewn a) cymunedau gwledig a b) cymunedau trefol? Esboniwch pam.



Dosbarthwyd yr 15 ymateb fel a ganlyn:

wyth yn dweud yr awdurdod lleol

dau yn dweud Cyfoeth Naturiol Cymru

dau yn dweud perchennog y tir neu'r ased penodol

un yn dweud pa bynnag awdurdod rheoli risg a arweiniodd ar benderfynu ar yr angen am yr amddiffynfeydd diogelu arfordirol newydd

4) Pa sefydliad ddylai arwain y gwaith o ddarparu amddiffynfeydd llifogydd arfordirol newydd mewn a) cymunedau gwledig a b) cymunedau trefol? Esboniwch pam.

Dosbarthwyd yr 15 ymateb fel a ganlyn:

saith yn dweud Cyfoeth Naturiol Cymru

pedwar yn dweud yr awdurdod lleol

un yn dweud ei fod yn dibynnu ar brif swyddogaeth yr ased, gyda'r awdurdod lleol yn arwain mewn achos o erydu a Chyfoeth Naturiol Cymru yn arwain mewn achos o berygl llifogydd

5) Pa sefydliad ddylai arwain y gwaith o reoli seilwaith amddiffynfeydd arfordirol sydd eisoes yn bodoli yn a) cymunedau gwledig a b) cymunedau trefol? Esboniwch pam.

Dosbarthwyd yr 15 ymateb fel a ganlyn:

wyth yn dweud yr awdurdod lleol

pedwar yn dweud perchennog y tir neu'r ased penodol

un yn dweud Cyfoeth Naturiol Cymru

un yn dweud pa bynnag awdurdod rheoli risg a hyrwyddodd y cynllun seilwaith yn wreiddiol

6) Pa sefydliad ddylai arwain y gwaith o ddarganfod asedau trydydd parti sy'n methu? Esboniwch pam.

Dosbarthwyd yr 15 ymateb fel a ganlyn:

pump yn dweud Cyfoeth Naturiol Cymru

tri yn dweud yr awdurdod lleol

tri yn dweud ei fod yn dibynnu ar brif swyddogaeth yr ased, gyda'r awdurdod lleol yn arwain mewn achos o erydu a Chyfoeth Naturiol Cymru yn arwain mewn achos o berygl llifogydd

tri yn dweud y dylai perchennog yr ased dalu gyda chymorth gan Gyfoeth naturiol Cymru a/neu'r awdurdod lleol ar y cyd

un yn dweud v byddai'n dibynnu a oedd yr uwchraddio'n waith cynnal a chadw hanfodol neu'n

7) Pa sefydliad ddylai arwain o ran cyfarwyddo'r gwaith o ddiweddarau asedau trydydd parti? Esboniwch pam.

Dosbarthwyd yr 15 ymateb fel a ganlyn:

saith yn dweud Cyfoeth Naturiol Cymru

tri yn dweud yr awdurdod lleol

dau yn dweud perchennog y tir neu'r ased penodol

un yn dweud pa bynnag awdurdod rheoli risg a arweiniodd ar benderfynu ar yr angen am yr amddiffynfeydd diogelu arfordirol newydd

un yn dweud bod gan yr awdurdod lleol ddiddordeb fel perchennog neu awdurdod priffyrdd ac felly y byddai'n gweithredu fel arweinydd cyflawni ar gyfer gwaith lleol, ond pe byddai Cyfoeth Naturiol Cymru am arwain, byddai'r awdurdod lleol yn cefnogi'r gwaith cyflawni

8) Os yw asedau amddiffyn arfordirol cyfagos yn eiddo i wahanol gyfrif cyhoeddus, a ddylid ystyried trosglwyddiad perchnogaeth i un ohonynt er mwyn sicrhau gwaith arolygu a chynnal mwy effeithlon? **DYLID / NA DDYLID**.

Os gwnaethoch ateb 'DYLID', a ddylai'r awdurdod lleol neu Gyfoeth Naturiol Cymru arwain fel perchennog? Esboniwch pam.

Dosbarthwyd yr 15 ymateb fel a ganlyn:

pedwar yn dweud 'Dylid', dau ohonynt yn dweud Cyfoeth Naturiol Cymru, un yn meddwl ei bod yn dibynnu ar brif swyddogaeth yr ased ac y dylid ei drosglwyddo i'r sefydliad gyda'r diddordeb mwyaf, ac un yn pwysleisio'r angen am set ddata gyson a safonau cofnodi arolygiad cenedlaethol

roedd un yn 'ansicr' ond, os 'Dylid', roedd yn dibynnu ar brif swyddogaeth yr ased

naw yn dweud 'Na ddylid', er enghraifft oherwydd adnoddau cyfyngedig cyrff cyhoeddus i berchnogi asedau neu gwestiynu a ellir trosglwyddo perchnogaeth yn gyfreithiol nododd un y dylid ystyried gweithio'n gydweithredol a nododd un arall y gellid gwneud arbedion trwy rannu data rhwng sefydliadau'n well

9) A ddylai integreiddiad gyda sectorau perthnasol eraill y tu allan i faes rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol (e.e. cynllunio a thrafnidiaeth) gael ei yrru ar lefel genedlaethol neu'r lefel leol, a gan bwy?

Dosbarthwyd yr 15 ymateb fel a ganlyn:

roedd 13 yn credu y dylid annog integreiddiad, gyda naw yn dewis iddo gael ei yrru'n genedlaethol gan Lywodraeth Cymru, tri yn dewis y lefel leol, ac un yn awgrymu cyfuniad o'r ddau a chynnwys grwpiau arfordirol

roedd un yn holi a ddylid cael integreiddiad, gan ei fod yn fater gwleidyddol ac mewn sectorau y tu allan i'r maes pwnc presennol

10) Hyd yn hyn, daethpwyd o hyd i astudiaethau achos o gynghorau Sir y Fflint (asedau trydydd parti), Ynys Môn (Biwmares) a Gwynedd (Borth-y-gest) er mwyn llywio'r gwaith ar

Ynys Môn: Biwmares a gohebiaeth gyda Llywodraeth Cymru sy'n cyfeirio at Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr yn erbyn y strategaeth genedlaethol.

Sir Benfro: Niwawl, er nad oes digon o fuddiannau i gael grant cymorth Deddf Amddiffyn y Glannau.

Conwy: Bydd dyfodol Glannau Bae Colwyn (dim ar y cam astudiaeth achos) angen integreiddiad rhwng yr awdurdod lleol a gwahanol ddarparwyr trafndiaeth/seilwaith.

Sir Ddinbych: Byddai swyddogaeth seilwaith Network Rail yn gwneud astudiaeth achos diddorol.

Gwynedd: Anghysonderau ym Mhwllheli, sydd wedi ei amddiffyn rhag llifogydd llanwol i'r dwyrain gan Gyfoeth Naturiol Cymru ond i'r gorllewin gan Gynqor Gwynedd. Byddai'n well

Argymhelliad 38. Nodwch unrhyw astudiaethau achos neu ymholiadau eraill isod:

Diolch i chi ymlaen llaw am eich cyfraniadau.



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

Cyhoeddwyd gan:

Cyfoeth Naturiol Cymru

Tŷ Cambria

29 Heol Casnewydd

Caerdydd

CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun – Gwener, 9am – 5pm)

[enquiries@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:enquiries@naturalresourceswales.gov.uk)

[www.cyfoethnaturiol.cymru](http://www.cyfoethnaturiol.cymru)

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon trwy ganiatâd o flaen llaw gan  
Gyfoeth Naturiol Cymru.